**Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi 24 Medi 2012**

## MEWNFUDDSODDI A MASNACH A'R BERTHYNAS RHWNG LLYWODRAETH CYMRU A MASNACH A BUDDSODDI Y DU (UKT&I)

### TROSOLWG

1.1 Gan fod datblygu economaidd yn gyfrifoldeb datganoledig yng Nghymru, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros ddenu mewnfuddsoddiad uniongyrchol o dramor, boed hynny'n fuddsoddiadau newydd, yn ail-fuddsoddiadau, yn gyd-fentrau neu'n gaffael. Canolbwyntiwn ar y sectorau allweddol ond rydym hefyd yn rhoi sylw i gyfleoedd y tu allan i'r sectorau hynny. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb hefyd dros ganfod a chyflenwi cyfleoedd mewnfuddsoddi o fannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Yn ogystal, cefnogwn gwmnïau yng Nghymru i ryngwladoli a defnyddiwn bob math o fesurau - yn amrywio o gefnogaeth un-i-un i drefnu a rheoli rhaglen o deithiau masnach - i gynyddu lefelau allforio.

1.2 Amcanion penodol Masnach a Buddsoddi y DU (UKTI) yw:

- cyflawni gwelliant mesuradwy ym mherfformiad busnes ei gwsmeriaid masnach rhyngwladol, gyda phwyslais ar gwmnïau arloesol a rhai sy'n weithgar ym maes Ymchwil a Datblygu (Y a D);
- cynyddu cyfraniad buddsoddiad uniongyrchol o dramor i weithgaredd economaidd gwybodaeth-ddwys yn y DU, gan gynnwys Y a D;
- ynghyd â chyflawni gwelliant mesuradwy yn enw da'r DU o ran arwain marchnadoedd tramor fel y partner busnes rhyngwladol o ddewis.

1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â UKTI ac eraill. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Buddsoddi Cenedlaethol (rhan o UKTI) wedi arwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n gosod protocolau ar gyfer rheoli cynhyrchu arweiniad a thrin prosiectau. Roedd y cytundeb ffurfiol hwn yn adeiladu ar y tîm yng Ngogledd America yn cyd-leoli gyda UKTI yn Swyddfa Is-gennad Prydain yn Efrog Newydd. Mae cyd-leoli yn cynnig manteision i Gymru o ran costau ond, yn bwysicach, mae wedi ein galluogi i ddatblygu cysylltiadau agosach â chydweithwyr yn UKTI a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn aelod gweithgar o'r Fforwm Datblygu Busnes Rhyngwladol, cyfrwng ar gyfer sicrhau cysondeb o ran y modd y mae'r rheiny sydd wrthi'n denu mewnfuddsoddiad yn mynd ati i wneud hynny.

### MEWNFUDDSODDI

2.1 Tra bo ymdrechion Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y sectorau allweddol, anogir prosiectau mewnfuddsoddi o'r tu hwnt i'r sectorau allweddol hynny hefyd. Mae gan Lywodraeth Cymru bresenoldeb mewn un ar ddeg o leoliadau dramor - Brwsel, Efrog Newydd, Washington, Dubai, Tokyo, Beijing, Shanghai, Chongqing, Bangalore, Mumbai a Delhi. Mae'r ôl-troed hwn wedi'i ymestyn yn ddiweddar i gynnwys y swyddfa newydd yn Llundain a fydd yn canolbwyntio ar fewnfuddsoddi a masnach ryngwladol ac yn adeiladu ar ymrwymiad y Prif Weinidog i weithredu ymhellach i hyrwyddo Cymru i'r byd er mwyn hybu economi Cymru.

2.2 Rydym hefyd yn ddiweddar wedi cryfhau ein swyddogaeth fasnach a mewnfuddsoddi a fydd, trwy weithio gyda thimau sector Llywodraeth Cymru, yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r timau tramor, yn ganolbwynt ar gyfer ein hymdrechion ym meysydd mewnfuddsoddi a masnach.

## MASNACH RYNGWLADOL

3. Mae Llywodraeth Cymru yn hoelio sylw ar bedwar cam allweddol er mwyn gweithio tuag at y nodau o gael mwy o allforio a mwy o allforwyr. Dangosir isod y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru ar gyfer bob un o'r camau hyn.

### 3.1 Codi Ymwybyddiaeth

3.1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid a chyrff cyswllt yn y sector cyhoeddus a phreifat i sicrhau bod cymaint o fusnesau â phosibl yn ymwybodol o'r manteision a geir drwy allforio ac o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yng Nghymru. Ymhlith enghreifftiau diweddar, ac mae rhagor o dan ystyriaeth gan gynnwys cyfres o ddigwyddiadau i gyd-fynd ag Wythnos Allforio UKTI ym mis Tachwedd, y mae:

- Digwyddiad Allforio ar gyfer Twf mewn partneriaeth â UKTI, PWC a HSBC.
- Panel Masnach Cymru Gyfan. Cyflwyniad i banel a sefydlwyd gan Siambr Fasnach De Cymru ar y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru.
- Digwyddiad Gwneud Busnes yn Hong Kong a Tsieina mewn partneriaeth gydag Invest Hong Kong, Cyngor Busnes Tsieina-Prydain, Deloitte.
- Arddangosfa Fusnes Siambr Fasnach De Cymru lle cyfrannodd Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Cefnogaeth ar gyfer Masnach Ryngwladol.
- Digwyddiad Gwneud Busnes yn UDA mewn partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Economaidd Fairfax County, Llysgenhadaeth UDA, Siambr Fasnach De Cymru.

- Digwyddiad cefnogi Masnach Ryngwladol gyda Chlwb Allforwyr Gorllewin Cymru.
- Digwyddiad Cyngor Busnes Rhyngwladol Cymru ar gyfer busnesau yng Ngorllewin Cymru.

**3.2 Gwella Gwybodaeth a Sgiliau.**

3.2.1 Ceir nifer o fesurau i helpu i ddatblygu gallu a chapasiti busnesau yng Nghymru i allforio:

- **Rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol (ITD)** – Rhaglen Llywodraeth Cymru, sy'n rhad ac am ddim, sy'n ceisio helpu busnesau i baratoi a chynllunio ar gyfer allforio. Er y'i bwriadir ar gyfer allforwyr newydd neu ddibrofiad, gan fynd i'r afael â materion sylfaenol mewn perthynas â masnach ryngwladol fel datblygu strategaethau a dewis marchnadoedd, y mae hefyd yn addas ar gyfer allforwyr profiadol sy'n chwilio i ymestyn i farchnadoedd newydd. Cyflenwir y gwasanaeth ar sail un-i-un a thrwy gyfres o seminarau a gweithdai.
- **Adolygiad Cyfathrebu Allforio (ECR)** – Cynllun UKTI sy'n adolygu'r modd y mae busnes yn cyfathrebu yn ysgrifenedig/ar lafar gyda marchnadoedd tramor ac sy'n darparu argymhellion ymarferol, ynghyd â chynllun gweithredu a chanllawiau ar sut i fynd i'r afael â phethau. Gall hyn hefyd gynnwys adolygiad trylwyr o wefannau. Mae'r gwasanaeth ar gael i BBaCh fu'n masnachu am o leiaf 2 flynedd ac mae'n costio £250 gyda TAW ar ben hynny.
- **Cynllun Ymchwil i'r Farchnad Allforio (EMRS)** - Cynllun UKTI all helpu busnesau i gynnal ymchwil i'r farchnad allforio ar destunau fel: maint marchnadoedd a segmentu; rheoliadau a deddfwriaeth; anghenion, defnyddio ac agweddau cwsmeriaid; sianelau dosbarthu; tueddiadau; a gweithgareddau, strategaethau a pherfformiad cystadleuwyr. Gall cymunedau a chanddynt lai na 250 o weithwyr fod yn gymwys i gael grant o hyd at 50 y cant o'r gost a gytunwyd ar gyfer prosiectau ymchwil i'r farchnad.

**3.3 Canfod Cyfleoedd**

3.3.1 **Rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol (ITO)** – Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n helpu busnesau sy'n barod i allforio i ganfod ac elwa ar gyfleoedd mewn marchnadoedd tramor dethol. Mae'r gwasanaethau'n amrywio o ymchwil a chyngor ar amodau masnachu lleol i drefnu cyfarfodydd gyda chysylltiadau sydd wedi'u paratoi ar gyfer hynny ymlaen llaw. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i fusnesau o bob maint a bydd busnesau sy'n cymryd rhan yn cyfrannu 25% tuag at gost y prosiect.

3.3.2 **Gwasanaeth Cyflwyno Marchnadoedd Tramor (OMIS)** - Gwasanaeth UKTI a ddarperir gan dimau masnach yn Llysgenadaethau'r DU, Uchel Gomisiynau a Swyddfeydd Is-genhadon. Gallai adroddiadau OMIS nodweddiadol gynnwys cyngor ar sectorau'r

farchnad, dadansoddiad o strategaethau mynediad i farchnadoedd, cefnogaeth yn ystod ymweliad tramor, canfod partneriaid busnes posibl.

**3. 4 Cyfarfod y Cwsmer**

3.4.1 **Teithiau Masnach** - Mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg rhaglen o ymweliadau amlsector a rhai ar gyfer sectorau penodol i farchnadoedd tramor. Mae'r hyn sydd wedi'i drefnu ar gyfer eleni yn cynnwys teithiau tramor amlsector i Tsieina, y Dwyrain Canol a Gogledd America.

3.4.2 **Teithiau Masnach Sector** – mae timau sector UKTI yn rhedeg rhaglen o deithiau masnach bob blwyddyn. Gall busnesau Cymreig gymryd rhan a, thra na chynigir unrhyw gymhorthdal gan dimau sector UKTI, gall busnesau yng Nghymru wneud cais am grant 50% tuag at gost teithio a llety.

3.4.3 **Ffeiriau Masnach** – Mae gan Lywodraeth Cymru bafiliwn mewn ffeiriau masnach rhyngwladol mawr mewn sectorau allweddol. Yn 2012/13, mae hyn yn cynnwys 'Medica' yn Nusseldorf; yr 'Association for Unmanned Vehicle Systems International' (AUVSI) yn Las Vegas; 'Food and Hospitality China' (FHC) yn Shanghai. Mae busnesau sy'n cymryd rhan yn derbyn cymhorthdal o 50% ar gost teithio a llety ac yn talu cyfraniad a gytunwyd tuag at gost lle ar gyfer stondin.

3.4.4 **Rhaglen Fynediad Sioeau Masnach** - Mae UKTI yn darparu cefnogaeth grant ar gyfer cwmnïau BBaCh cymwys i fynychu sioeau masnach dramor. Cymerir rhan fel arfer fel rhan o grŵp, ac fe'i harweinir fel arfer gan un o Gymdeithasau Masnachu Achrededig (ATOau) UKTI. Mae meini prawf cymhwyster ar gyfer y gefnogaeth hon yn amrywio yn ôl y farchnad ond, yn gyffredinol, mae grantiau ar gael i BBaCh sy'n allforio gyda throsiant o lai na 25%. Mae'r grantiau'n amrywio o £1,000 i £1,800.

3.4.5 **Cefnogaeth ar gyfer Ymweliadau Datblygu Busnes Tramor** - Cymorth tuag ag y gost o ymgymryd ag ymweliadau datblygu busnes i farchnadoedd tramor. Ymhlith gweithgareddau a gefnogir y mae arddangos mewn ffeiriau masnach a theithio i gyfarfodydd â darpar gwsmeriaid. Ni ellir defnyddio'r gefnogaeth i wasanaethu cysylltiadau neu gytundebau newydd.

3.4.6 Mae rhai enghreifftiau diweddar o weithio gyda UKTI ar deithiau/arddangosfeydd masnach yn cynnwys:

- Digwyddiad busnes i fusnes ar y cyd yn FHC Shanghai.
- Wythnos Ynni Prydain yn Saudi Arabia - taith fasnach aml-sector a drefnwyd i Saudi Arabia i gyd-fynd ag Wythnos Ynni Prydain. Gall cyfranogwyr yn y daith fasnach o'r sector Ynni a'r Amgylchedd adael y brif daith fasnach a mynychu digwyddiadau UKTI yn Al Khobar.
- Cael lle ar stondin UKTI yn CEMEF yn Tsieina.